# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Iau, 26 Tachwedd 2015.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd Evans, Paul Hughes, Siôn Ifans, Derryck Lewis, S Gareth Owen, William N Owen, Geraint Wigley, Ann Williams, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr Aled O Griffiths, D Gwyn Jones, John Pughe Jones, Gwen Lloyd.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy cydymdeimlo gyda teulu y diweddar Dafydd Wyn Jones, Blaenplwyf Uchaf, Aberngell. Yr oedd Dafydd wedi bod yn Cynghorydd Lleol ac yn Cynghorydd Sir am nifer o flynyddoedd ac wedi cyfrannu yn haul i phob agwedd o gymdeithas yr ardal. Mi fydd colled mawr yn y Dyffryn ar ei ol.

**51. Cofnodion cyfarfod 29 Hydref 2015.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**52. Materion yn codi o'r cofnodion.**
101.1 "Defibrillator". Cadarnhaodd Gwilym Fychan ei fod wedi siarad gyda Paddy Bailey. Yr oedd ei grwp wedi llwyddo cael grant gan yr "HLF", ond mae "Calon Cymru" yn optiwn arall. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd siarad gyda "Calon Cymru" am ragor o wybodaeth.
32.1 Grantiau Llywodraeth Cymru Wledig. Esboniodd Cyng Sion Ifans ei fod yn gobeithio cyfarfod gyda Ms Jenny Thomas o Gyngor Sir Powys cyn y cyfarfod nesaf i holi am y sefyllfa gyda grantiau.
39.1 Prosiect Pont ar Ddyfi. Darllenodd Gwilym Fychan ymateb yr oedd wedi cael gan Dafydd Rowlands o Gwmni Alan Griffiths. Mae'n debyg fod datrys y problem dwr o dan bont y rheilffordd wedi cael ei cynnwys fel rhan o'r prosiect erbyn hyn. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd fe ddylai Cyng Dafydd Evans a Cyng Gareth Owen cysylltu gyda Mr Julian Davies o Gwmni Alan Griffiths i thrafod y sefyllfa ymhellach.
40.1 Hysbysebu am Cynghorydd newydd. Eglurodd y Clerc mai Mr Gareth Wyn Jones, Coed-ddol, Llanwrin oedd yr unig unigolyn i ddangos diddordeb. Cytunwyd derbyn Gareth fel y Cynghorydd newydd yn cynrychioli Ward Llanwrin a'i gwahodd i'r cyfarfod nesaf.
44. Sul y Cofio. Darllenodd y Clerc llythr gan Mrs Heather Williams yn diolch y Cyngor am eu cefnogaeth.

**53. Anrhegu Stephen Tudor.**
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gwahodd Stephen a'i wraig i pharti gyda bwyd am 8:00yh yn dilyn cyfarfod Mis Rhagfyr (y cyfarfod i gychwyn am 6:30yh). Cytunwyd gwahodd phartneriaid y Cynghorwyr presennol. Mi fydd y Caderiydd yn prynnu anrheg ar ran y Cynghorwyr ac mi fydd y Clerc yn paratoi tystysgrif addas.

**54. Cynllunio.**
P/2015/0987. Gwaith ar Y Dovey Valley Hotel, Glantwymyn. Cytunwyd cefnogi.
P/2015/1007. Codi ty ger Troed-y-Bryn, Abercegir. Cytunwyd rhoi dim barn.
P/2015/1008. Codi paneli solar ar tir ger Pandy, Commins Coch. Cytunwyd cefnogi.
P/2015/1053. Codi paneli solar ar tir get Coed-ddol, Llanwrin. Cytunwyd cefnogi.

**55. Eitemau i'w talu.**
55.1 Cyfraniad blynyddol i Ganolfan Glantwymyn. Cytunwyd cyfrannu £1,200.

**56. Cais am arian.**
Gohiriwyd pedwar cais i gyfarfod Mis Rhagfyr.

**57. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**

57.1 Eglurodd y Clerc ei fod wedi mynychu cyfarfod lleol yr "SLCC" yn Llandrindod lle cafwyd cyflwyniad diddorol gan Mr Wyn Richards o Gyngor Sir Powys ar y Cod Ymddygiad i Cynghorwyr.

57.2 Ymddiheurodd y Cadeirydd ei bod wedi methu mynychu cyfarfod diweddaraf y Forwm Cleifion.

**58. Gohebiaeth.**

58.1 E-bost gan Ms Helen Blake am "Libertyfest Cymru". Esboniodd y Clerc fod Ms Blake yn gobeithio cael cefnogaeth y Cyngor i gynnal Gwyl "Libertyfest Cymru" ar caeau Gwastadcoed, Glantwymyn yn ystod haf 2016. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gofyn i Ms Blake i gyfathrebu'n ddwy iaethog gyda trigolion pentref Glantwymyn ynglyn y cynllun.

58.2 Llythr gan Cyng Wynne Jones, Cyngor Sir Powys, ynglyn a her y gyllideb.

58.3 E-bost gan Melanie Amor, Cyngor Sir Powys, gyda manylion gwasanaeth sbwriel pob tair wythnos. Nodwyd yr eglurhad ynglyn y sefyllfa gyda gwastraff meddygol.

58.4 Llythr arall gan Cyng Barry Thomas, Cyngor Sir Powys, ynglyn a datgan Gwasanaethau yn y Cymuned.

58.5 E-bost gan Paul Egan, Un Llais Cymru, gyda cyngor ynglyn y sefyllfa pensiwn.

58.6 Llythr gan Louise Williams, Adran Cynllunio Cyngor Sir Powys, ynglyn cynllyn i ddosbarthu pob ymgynghoriad cynllunio yn electronig yn y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i wrthwynebu'r newid yma.

58.7 E-bost gan Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, ynglyn Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft.

58.8 Llythr gan Shyam Vining, Llywodraeth Cymru, ynglyn a'r angen i cael gwefan ac e-bost i Cyngor Cymuned Glantwymyn. Cytunwyd fe ddylai'r Clerc ysgrifennu ato i egluro fod y ddau mewn bodolaeth.

**59. Unrhyw fater arall.**

59.1 Eglurodd Cyng Derryck Lewis fod yna cyfle i edrych ar y sefyllfa gyda dwr yn sefyll ar y ffordd fawr ger Tynrhos, Cwmllinau tra bod gwaith yn parhau ar y wal cyfagos.

59.2 Eglurodd Cyng Ann Williams fod yna hefyd problem gyda dwr yn sefyll ar y ffordd fawr ger Craigygronfa, Mallwyd.

59.3 Eglurodd Cyng Huw M Williams fod y "gullies" yng Ngwm Ffrydlan angen sylw.

59.4 Eglurodd Cyng Huw M Williams ei fod hefyd yn amheus fod dim digon o halen wedi cael ei rhoi yn y biniau halen yn yr ardal ar gyfer y gaeaf.

59.5 Eglurodd Cyng William N Owen a Cyng Dafydd Evans fod angen gawith glanhau ar Ffordd Llanwrin gan ystyried fod hwn yn ffordd osgoi prysur yr adeg yma o'r flwyddyn.

59.6 Eglurodd Cyng Gwilym Fychan fod swyddogion y Cyngor Sir yn ystyried problem gyda cyflwr gardd un o trigolion y Terras yng Nghomins Coch.

59.7 Eglurodd Cyng Ann Williams fod angen erfyn ar swyddogion Cyngor Sir Powys fod angen rhoi halen ar hyd y ffordd gefn ym Mhentref Cwmlline hyd at y pen pellaf.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 17 Rhagfyr 2015.**
**Nodwch, mi fydd y cyfarfod yma yn cychwyn am 6:30yh.**